

Elin Jones AC
Y Llywydd

3 Mai 2018

Annwyl Lywydd

Adnoddau i graffu ar Brexit

Diolch ichi am eich llythyr, dyddiedig 16 Mawrth, yn holi am yr adnoddau sydd gennym i graffu ar Brexit. Trafododd y Pwyllgor y llythyr yn ei gyfarfodydd ar 19 Mawrth, 23 Ebrill a 30 Ebrill ac, mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, cynigir y sylwadau a ganlyn.

1. I ba raddau y mae Brexit yn debygol o effeithio ar waith eich Pwyllgor?

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi bod yn craffu ar faterion cyfansoddiadol a deddfwriaethol yn gysylltiedig â phenderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, a bydd yn parhau i wneud hynny.

European Union (Withdrawal) Bill

Rydym wedi neilltuo cryn dipyn o amser i drafod Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), gan gynnwys cyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r gweithdrefnau ar gyfer craffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ei bod wedi dod i gytundeb ar y Bil, rydym wedi dechrau ar y gwaith o ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Ebrill. Byddwn yn amcanu i osod adroddiad gerbron y Cynulliad mewn pryd ar gyfer dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

O ran craffu ar reoliadau sy'n deillio o Fil yr UE (Ymadael), bydd ein cyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 21 yn effeithio ar lwyth gwaith y Pwyllgor. Ar 7 Mawrth, ysgrifennodd



Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ataf ynghylch is-ddeddfwriaeth y bydd ei hangen i ganiatáu i Weinidogion Cymru gywiro diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE ac sydd o fewn cymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae Arweinydd y Tŷ wedi nodi bod dadansoddiad presennol Llywodraeth Cymru wedi nodi oddeutu 400 o offerynnau diffygiol, a gellid ymdrin â rhai ohonynt drwy ddefnyddio offerynnau cywiro cyfunol. Fodd bynnag, roedd y dadansoddiad hwnnw wedi'i seilio ar ffurf bresennol cymal 11 o'r Bil ac mae Arweinydd y Tŷ wedi ymrwmo i roi rhagor o wybodaeth inni pan fydd y darlun yn gliriach o ran ei ffurf derfynol.

Rydym yn ystyried materion gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil, ac efallai y byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y rhain fel y nodwyd yn ein hadroddiad diweddar ar y pwnc hwn.

Y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd

Rydym hefyd wedi neilltuo amser i graffu ar y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), gan gasglu tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid cyn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn dadl Cyfnod 1. Pan gaiff y Bil ei gyfeirio at y Goruchaf Lys, roeddem wedi bwriadu gwyllo'r broses i asesu unrhyw effaith ddilynol ar faterion cyfansoddiadol a'r setliad datganoli'n fwy cyffredinol. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pasio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) gan olygu i'r cyfeiriad at y Goruchaf Lys gael ei dynnu'n ôl (fel y nodwyd yng nghytundeb Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU), efallai y bydd angen i'r Bil fynd yn ei flaen i gael Cydsyniad Brenhinol a gallai Llywodraeth Cymru, o ganlyniad, ddefnyddio'r broses ddiddymu yn y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru). Os dyna'r achos, bydd y Pwyllgor hwn yn craffu ar y rheoliadau drafft priodol o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol a nodir yn y Bil (neu Ddeddf).

Biliau eraill y DU sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ar yr adeg briodol, bydd angen craffu ar Filiau'r DU sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd, er enghraifft y Biliau Pysgodfeydd ac Amaethyddiaeth. Ni fyddai hyn yn cynnwys trafod cyd-destun y polisi, ond effaith y Bil ar y setliad datganoli.

Y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit

Fel y gwyddoch, fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, byddaf yn bresennol yng nghyfarfodydd rheolaidd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ddiwedd mis Mawrth yng Nghaeredin ac yno rhoddodd



cynrychiolwyr pwyllgorau sefydliadau o bob rhan o'r DU y wybodaeth ddiweddaraf am waith eu pwyllgorau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fuddiol iawn a byddant yn parhau hyd y gellir rhagweld.

Mae ein tîm clericio hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â chlercod y pwyllgorau seneddol eraill sy'n gyfrifol am graffu ar faterion cyfansoddiadol ac is-ddeddfwriaeth. Mae themâu cyffredin yn dod i'r amlwg ac rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith rhyngseneddol, agos a chynhyrchiol hwn, yn enwedig mewn perthynas â materion gweithredol yn ymwneud â chraffu ar is-ddeddfwriaeth.

Gwaith yn y dyfodol

Mae cysylltiad annatod rhwng goblygiadau cyfansoddiadol gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r setliad datganoli. O'r herwydd, rydym eisoes wedi ystyried ffrydiau gwaith posibl sy'n cynnwys Confensiwn Sewel a'r Fframweithiau Cyffredin. Yn y tymor hwy, ac o ganlyniad i'r hyn a ddysgir wrth weithredu is-ddeddfwriaeth cysylltiedig â Brexit, credwn fod lle, o bosibl, i edrych yn fwy eang a thrylwyr ar y gweithdrefnau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth.

Fel y daw'n amlwg, mae'r goblygiadau cyfansoddiadol a deddfwriaethol sydd ynghlwm wrth adael yr Undeb Ewropeaidd yn newid o hyd. Ein bwriad yw canolbwyntio ar yr agweddau hyn, a hefyd ar ein cyfrifoldebau o dan y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chraffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth; er enghraifft, yn y tymor byr a chanolig, y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) a Bil Deddfwriaeth (Cymru) arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i weithio ar y Bil Comisiynwyr yn y cefndir ac, er y byddem yn hoffi rhoi mwy o flaenoriaeth iddo, byddwn yn bwrw ymlaen â hyn pan fydd amser yn caniatáu.

Goblygiadau ar adnoddau

Ein nod yw gweithio o fewn ein hadnoddau presennol a sicrhau ein bod yn rheoli ein llwyth gwaith yn unol â hynny.

Mae ein Pwyllgor yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 i wirio bod offerynnau statudol yn gyfreithlon, eu bod wedi'u cyfieithu'n gywir, nad ydynt yn mynd yn groes i hawliau dynol na chyfraith yr UE etc. Bydd faint o Offerynnau Statudol ychwanegol y bydd angen craffu arnynt yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith. Bydd yn dibynnu'n fawr ar ffurf derfynol cymal 11 o Fil yr UE (Ymadael), ond mae'r gwaith o graffu ar Offerynnau Statudol



yn debygol o ddyblu (o leiaf) rhwng nawr a'r diwrnod ymadael, gan ymestyn ymhellach i'r cyfnod pontio a thu hwnt i hynny fwy na thebyg.

Ymhellach, er gwaethaf y nifer ychwanegol o Offerynnau Statudol cysylltiedig â Brexit y bydd eu hangen, rydym yn deall y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i wneud Offerynnau Statudol mewn meysydd nad ydynt yn gysylltiedig â Brexit.

Unwaith y bydd y goblygiadau gweithredol sydd ynghlwm wrth graffu ar fwy o is-ddeddfwriaeth yn dod yn gliriach, byddwn yn ailasesu trefniadau staffio gweinyddol a chyfreithiol, a all arwain at fod angen rhagor o adnoddau. Os bydd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit yn cyfarfod yn amlach, a minnau mewn sefyllfa i gymryd rhan ynddynt, ac os bydd seneddau'n cydweithredu fwyfwy, bydd angen ystyried yr effaith ariannol ymhellach.

2. A ydych yn rhagweld unrhyw broblemau'n ymwneud â chapasiti'r Aelodau a'r Pwyllgorau, fel amserlennu cyfarfodydd, ac aelodaeth.

Yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, fe wyddoch fy mod wedi ysgrifennu i ofyn caniatâd i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddechrau ei gyfarfodydd yn gynharach na'r arfer, yn ôl yr angen, er mwyn medru cynnal cyfarfodydd hirach (yn ôl anghenion busnes), neu i glywed gan Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU na fyddent ar gael fel arall. Roedd hyn yn deillio o'r angen i ymdrin â'r materion cyfansoddiadol sy'n codi'n gynyddol yn ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yng ngoleuni penderfyniad y Pwyllgor Busnes, byddwn yn awr yn gwneud cais at y diben hwn fesul achos.

Ar ôl trafod y pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys ym Mil yr UE (Ymadael), argymhellodd yr aelodau mai'r Pwyllgor hwn ddylai weithredu fel y pwyllgor sifftio y rhagwelir y bydd angen ei sefydlu o dan y Bil. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan gytuno y byddai'n briodol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno mai ein Pwyllgor ni fydd y pwyllgor sifftio, mae'n bosibl y bydd angen ystyried a fydd un cyfarfod yr wythnos yn ddigon - gan ddibynnu ar nifer y darnau o is-ddeddfwriaeth a gaiff eu cyflwyno a phryd.

Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Rydym ar ddeall bod Rheolwyr Busnes wedi cytuno i drafod â'u grwpiau y mater o adolygu'r Rheolau Sefydlog yn eu cyfarfod ar 24 Ebrill, ac ystyried yn benodol a ddylid



adolygu cyfansoddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn sgil yr Offerynnau Statudol a gyflwynir mewn cysylltiad â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn cydnabod bod y Rheolwyr Busnes wedi cytuno y dylid ystyried hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch adolygu Rheolau Sefydlog, ac rydym yn disgwyl am ohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes ynghylch y materion hyn maes o law.

Croesawaf eich ymrwymiad i gynnal deialog adeiladol gyda Phwyllgorau'r Cynulliad ar y materion pwysig hyn.

Yn gywir,



Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

